# COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD MAWRTH, 26 MAWRTH 2024 AM 10:00

## Yn bresennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | J E Pratt | M J Williams |

## Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | P Jenkins | M Kearn | W J Kendall |
| G Walter | I Williams | | |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd M J Evans

## Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Jonathan Pratt - Personol - Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad.
Y Cynghorydd William Kendall - Personol - Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad.
Y Cynghorydd Mike Kearn - Personol - Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiad.

## Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Huw David | Arweinydd y Cyngor |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a'r Gyfraith |
| Y Cynghorydd Rhys Goode | Aelod Cabinet dros Dai, Cynllunio ac Adfywio |
| Y Cynghorydd John Spanswick | Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| | |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Justin Kingdon | Rheolwr Grŵp - Landlord Corfforaethol |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataiddd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Mike Pitman | Swyddog Cymorth Technegol, Gwasanaethau Democrataidd |

**67. Ailystyried Penderfyniad y Cabinet: Protocol Arfaethedig Trosglwyddo Trafodion Defnydd Tir gyda Phrifddinas Ranbarth Caerdydd ar gyfer Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu yn unol ag Adran 7.23 o Gyfansoddiad y Cyngor, bod tri Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac un Cadeirydd Craffu, wedi gwneud cais i ailystyried penderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet ar 12 Mawrth mewn perthynas â'r Protocol Arfaethedig Trosglwyddo Trafodion Defnydd Tir gyda Phrifddinas Ranbarth Caerdydd ym Mrynmenyn a Bryncethin 2024.<br><br>Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau a oedd wedi cefnogi'r galw i ailystyried i siarad am y rhesymau dros wneud hynny, ac aethant ati i gyfeirio at resymau dros yr Ail ystyried fel y manylir yn yr Hysbysiad Galw i Mewn (Atodiad B).<br><br>Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau Pwyllgor i ofyn cwestiynau a chafwyd trafodaethau manwl rhwng Aelodau, Aelodau'r Cabinet a Swyddogion.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd nad oedd cwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchwyd iddynt am eu presenoldeb ac yna gadawsant y cyfarfod.<br><br>Gydag ystyriaeth i p'un ai a oedd Aelodau yn fodlon gyda'r ymatebion a dderbyniwyd, gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor a oeddent yn dymuno:<br><br>a) Cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi'r rhesymau a'r rhesymeg dros y cais:<br>neu<br>b) Benderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.<br><br>PENDERFYNWYD: Ar ôl archwilio'r penderfyniad a'r trafodaethau manwl gydag Aelodau'r Cabinet a'r Swyddogion a wahoddwyd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad na fyddai'r Penderfyniad yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w ailystyried ond gwnaethpwyd yr Argymhellion canlynol i'r Cabinet, sydd i'w hadrodd mewn cyfarfod Cabinet yn y dyfodol: |

| | |
|---|---|
| | Argymhellion:<br><br>1. Y dylai'r Cabinet ystyried derbyn adroddiad pellach ar amser priodol ar gyfer rhagor o wybodaeth, gan gynnwys hyd y brydles a thelerau gwerth y brydles.<br><br>2. Y dylai'r Cabinet nodi'r pryderon a godwyd yn y Pwyllgor fel y'u cynhwyswyd yn yr Hysbysiad Galw i Mewn a'u cymryd i ystyriaeth yn ystod unrhyw drafodaethau pellach. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 26 Mawrth 2024 |

Er mwyn clywed y drafodaeth bellach a gafwyd yn seiliedig ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 12.47pm